

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **22 Gorffennaf 2024** yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd eitem 50/24) Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer a Chadeirydd y Pwyllgor am weddill y cyfarfod), Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Gwynant Roberts a'r Cyng. Mark Roberts,

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Sioned Jones (Cyfieithydd).

50/24 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2024 – 2025.

Derbyniwyd cynnig i ddiddymu'r Rheol Sefydlog ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda, yn benodol y cymal hwnnw sy'n ymwneud â therfyn amser o ddwy flynedd i Aelodau wasanaethu fel cadeiryddion pwyllgorau.

Penderfynwyd: diddymu'r Rheol Sefydlog.

Yn dilyn trafodaeth fer, gofynnwyd i'r Cyng Medwyn Hughes a oedd yn fodlon gwasanaethu am flwyddyn arall fel cadeirydd y Pwyllgor Asedau.

Penderfynwyd: Etholwyd y Cyng Hughes i gadeirio'r Pwyllgor Asedau am y Flwyddyn Gyngor 2024-2025.

Penderfynwyd: gohirio penodi dirprwy gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

51/24 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Steve Bell, Cyng. Beverley Jones, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Lisa Toth.

52/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

53/24 CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 12FED CHWEFROR 2024

Roedd cofnodion cyfarfod 12 Chwefror wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau

Penderfynwyd: derbyn y cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

54/24 TRAFOD LOG GWEITHREDU ASEDY:

Roedd y Cofnod Gweithredu Asedau wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran yr eitemau a restrir yn y Log Gweithredu. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Dinesig nad oedd rhai eitemau wedi symud ymlaen mor gyflym ag a ragwelwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd y llwyddiant i gael grant Trawsnewid Trefi, a oedd, oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i'w ddefnyddio, wedi golygu fod llawer o adnoddau'r Cyngor wedi'u defnyddio ar y Stryd Fawr. Fodd bynnag:

- i) Roedd trafodaethau gyda Chyfeillion Pier Garth a rhanddeiliaid eraill â diddordeb mewn prydlesu rheolaeth y Pier a'r ardal gyfagos i CIC yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r CIC bellach wedi'i sefydlu, roedd y costau rhedeg blynyddol ar gyfer y llynedd ar gael ac roedd trafodaethau ar rai o fanylion y cytundeb yn parhau.

- ii) Yn unol â phenderfyniad diweddar y Cyngor mae gwaith ar dŷ y Pierfeistr wedi dod i ben gan y bwriedir bellach ei gynnwys yn y brydles.
- iii) Dywedwyd bod y Storfa wedi'i symud a'r swyddfa dros dro wedi'i hadleoli i'r llawr gwaelod, sydd, er nad yw'n ateb parhaol, wedi gwella delwedd y lleoliad. Gofynnwyd i Gyfarwyddwr y Ddinas adrodd ar amserlen ar gyfer dileu'r swyddfa dros dro erbyn y cyfarfod nesaf.
- iv) Adroddwyd bod y wylfan newydd ac felly ei tho, bellach wedi eu hailadeiladu a rhwystr y maes parcio wedi ei symud.
- v) Roedd y gwaith o ad-drefnu'r gweithdy bellach wedi'i gwblhau tua 80%.
- vi) Mae trafodaethau'n parhau gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â throsglwyddo Gerddi'r Garth a Thoiledau Cyhoeddus y Garth i Gyngor y Ddinas.

55/24 CYMERADWYO MENTER PLANNU CENNIN PEDR 2025.

I ychwanegu lliw at y prif ffyrdd i mewn i'r Ddinas ar ddechrau 2025, cynigiwyd bod y Cyngor yn mabwysiadu menter plannu cennin Pedr. Bydd hyn yn cyfoethogi delwedd y Ddinas ar ddechrau ei dathliadau 1500 mlynedd. Cafwyd prisiau gan Gyngor Gwynedd a thrafodwyd sawl opsiwn.

PENDERFYNWYD: mabwysiadu'r fenter hon a dyrannu £5,000 i'r prosiect.

56/24 CYMERADWYO GWEITHIO GYDA GRŴP CYMUNEDOL CAE DARGIE (PENBONC).

Yn dilyn trafodaethau diweddar gyda Grŵp Cymunedol Cae Dargie a oedd newydd ei ffurfio, cynigiwyd bod y grŵp cymunedol hwn yn cymryd drosodd rheolaeth Cae Dargie ac yn sefydlu, ymhlith pethau eraill, perllan gymunedol. Adroddwyd bod nifer o opsiynau strwythurol wedi eu trafod ond y syniad mwyaf effeithlon a buddiol oedd i'r grŵp cymunedol, tra'n cynnal ymreolaeth fewnol, weithio dan adain y Cyngor Dinas.

PENDERFYNWYD: caniatáu i Grŵp Cymunedol Cae Dargie weithio ar reolaeth y Cae a chael ei gefnogi gan Gyngor y Ddinas.

57/24 CAFFAEL TIR – TRAFOD POSIBILIADAU

Adroddwyd bod y Cyngor mewn trafodaethau i brynu tri darn o dir sydd wedi gordyfu ar hyn o bryd. Mae'r rhain gerllaw cyffordd Ffordd Ffriddoedd a Threm Elidir, cyffordd Ffordd Deiniol a Ffordd Sackville, a'r llwybr troed rhwng Ffordd Farrar ac ASDA. Trafododd y Cyngor y posibiliadau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn. Fodd bynnag, gan nad yw'r llwybrau hyn o dir eto o dan gyfrifoldeb Cyngor y Ddinas ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol.

PENDERFYNWYD: gofyn i'r Gyfarwyddwr Dinesig gysylltu â rhanddeiliaid Bangor, gan gynnwys y Brifysgol a Chyngor Gwynedd, i edrych ar yr opsiynau a drafodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 p.m

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR